STEDDFOTA
Cylchlythyr Cymdeithas Eisteddfodau Cymru
Rhif 72 Hybu eisteddfodau, cynnal cymunedau Mai 2025

# CAMU I'R LLWYFAN

Gweithredwyd cynllun gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru yn ddiweddar - cynllun i 'Fentora Arweinyddion Llwyfan'. Llywiwyd yr hyfforddiant gan Betsan Powys, sydd wrth gwrs yn enw cyfarwydd yn y byd darlledu ac hefyd fel arweinydd llwyfan cenedlaethol medrus.

Cynigwyd cyfle amhrisiadwy i griw o unigolion oedd wedi mynegi diddordeb i ddatblygu eu sgiliau arwain ar lwyfan eisteddfod, gan fanteisio ar brofiad ac arbenigedd Betsan.

Da yw medru dweud i'r cynllun fod yn llwyddiant, a braf oedd derbyn adborth cadarnahol gan y cyfranogwyr wrth iddynt ddatgan eu gwerthfawrogiad i Betsan am ei hamser a'i chefnogaeth. Nodwyd bod ei chyngor a'i harweiniad wedi bod yn ddefnyddiol iawn ar lefel bersonol a phroffesiynol.

Mae'n bleser gennym rannu y bydd rhai o'r arweinyddion hyn yn camu 'mlaen i arwain ar lwyfannau rhai o is-bafiliynau'r Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam eleni – gan fachu ar y cyfle i roi'r sgiliau newydd a ddysgwyd ar waith, o flaen cynulleidfa.

Dymunwn y gorau i bob un ohonynt yn ystod wythnos y Genedlaethol, gan obeithio y byddant yn mwynhau'r profiad.




Fel Cymdeithas, ry'n ni'n awyddus i ddiolch o waelod calon i Betsan Powys am ei pharodrwydd i gydweithio efo ni i sicrhau bod y fenter yma yn un llwyddiannus.




**Edrychwn ymlaen at wythnos brysur ym Mharc Margam, gan obeithio fydd yr haul yn gwenu! Cofiwch alw heibio'r caban pren i'n gweld. (Cadwch lygad ar ein cyfryngau cymdeithasol i weld lleoliad y stondin.)**

**Dymunwn yn dda i'r holl gystadleuwyr yn ystod yr wythnos.**

**Ewch amdani a mwynhewch y profiad!**



**AELODAETH FLYNYDDOL i EISTEDDFODAU LLEOL £20**

*YN DALADWY DRWY SIEC NEU ARCHEB BANC*

*Yr holl fanylion angenrheidiol a ffurflen ymaelodi ar www.steddfota.cymru*

# CYSTADLAETHAU 2025-2026












**Gweler ein gwefan ar gyfer:**

* Manylion llawn, amodau a rheolau pob cystadleuaeth
* Dewis o sgriptiau Mewn Cymeriad - Mari Jones, Kate Roberts, Owain Glyndwr, Dic Penderyn a Cranogwen

**www.steddfota.cymru**





Diolch yn fawr i nifer o eisteddfodau lleol am eu cydweithrediad wrth i ni dderbyn a chrynhoi gwaith gan rai o enillwyr ifanc 2024-2025 ar ddiwedd mis Ebrill. Edrychwn ymlaen yn fawr at weld pwy fydd y llenor ifanc buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam eleni.



2023
Gruffudd ab Owain



2024
Alaw Fflur Jones



2025
???

# CYSTADLAETHAU GŴYL DDEWI A PHASG

Cynhaliwyd cystadleuaeth limrig Dydd Gŵyl Dewi ar y cyd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Diolch yn fawr i gyfranwyr y deg ar hugain limrig ddaeth i law, gan roi her i'r beirniad, Tudur Dylan Jones. Wele'r enillwyr isod

Cadi Fflur Bonner (6 oed) oedd enillydd y gystadleuaeth 'Darlun Pasg'. Gweler ei gwaith hyfryd isod. Cyfranwyd y wobr gan gwmni ani-bendod, a dewiswyd yr enillydd ganddynt yn ogystal. Diolch yn fawr! Da iawn bawb, a diolch am y gefnogaeth.













## AR GAEL I'CH EISTEDDFOD CHI

**Chwilio am feirniad neu gyfeilydd?**

Cofiwch am ein rhestr:

Ar gael drwy ebostio angharad@steddfota.cymru neu lois@steddfota.cymru



# O 'STEDDFOD I 'STEDDFOD

## EISTEDDFOD MELIN Y COED



Un o'r grwpiau lleol yng nghystadleuaeth y Band Cegin i blant



Rhai o gystadleuwyr ifanc llwyddiannus yr eisteddfod

## EISTEDDFOD GADEIRIOL BRYNBERIAN



Bardd y Gadair - Gaenor Mai Jones, Pentre'r Eglwys



Arwel Evans - enillydd yr Her Unawd dros 25 oed

## EISTEDDFOD LLANLLYFNI



Deio Rhys Chwilog - 1af Alaw Werin, yr Unawd Cerdd Dant dros 15 a'r Llefaru dan 21



Disgyblion Cynradd yn barod i gystadlu

## EISTEDDFOD CYMDEITHAS CEREDIGION



Y gynulleidfa'n mwynhau noson Cawl a Cherddi



Y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan yn cyflwyno'r gadair i Philippa Gibson, enillydd Gwobr Goffa Pat Neill

## EISTEDDFOD LLANFIHANGEL-AR-ARTH




Enillydd Tlws yr Ifanc - Luned Defis, Cynwyl Elfed a Megan Richards, Aberaeron - bardd y gadair



Yr Her Adroddiad - 1af Gwenno Evans, 2il Carol Davies, 3ydd Linda Evans

## EISTEDDFOD GADEIRIOL CAPEL Y FADFA TALGARREG



Unawdwyr a Llefarwyr oed cynradd wedi mwynhau llwyddiant yn Nhalgarreg



# EISTEDDFOD GADEIRIOL PENRHYN-COCH




Enillydd Tlws yr Ifanc dan 25 oed - Robin Humphries



Seremoni cadeirio'r bardd buddugol - Lowri Emlyn, Penrhyn-coch

# EISTEDDFOD Y GROESLON



Genod Y Dyffryn - 1af yng nghystadleuaeth yr Ensemble Lleisiol



Unawd allan o Sioe Gerdd (oed uwchradd) - 1af Erin (dde), 2il Lettie

# EISTEDDFOD GADEIRIOL MYNYTHO



Bardd y Gadair - Y Parch. Judith Morris, Penrhyn-coch



Dau o enillwyr ifanc talentog yr eisteddfod

# EISTEDDFOD CAPEL Y GROES



Unawd Sioe Gerdd agored - 1af Ela Mablen Griffiths-Jones, 2il Mari Williams



Côr Bytholwyrdd - buddugol yn y gystadleuaeth gorawl

# EISTEDDFOD UWCHMYNYDD



Robin Humphries, Nefyn - enillydd Tlws yr Ifanc dan 25 oed



Cyflwynwyd medalau i fwy o brif enillwyr teilwng yr eisteddfod

# EISTEDDFOD CALAN MAI ABERYSTWYTH



Anwen Pierce - enillydd Tlws y Llenor



Marianne Jones Powell a Gwynne Jones - dau o ffyddloniaid yr eisteddfod, gyda Clive Williams (arweinydd)

# EISTEDDFOD GADEIRIOL BRYNGWENITH



Llefarwyr llwyddiannus yn y gystadleuaeth agored i blant Blwyddyn 2 ac iau



Seremoni cadeirio'r bardd buddugol - Iwan Thomas, Ciliau Aeron

# EISTEDDFOD GADEIRIOL MYNYDD Y GARREG



Bardd y Gadair oedd Nanw Maelor Hampson o'r Wyddgrug



# EISTEDDFODAU TEULU JAMES PANTYFEDWEN PONTRHYDFENDIGAID



Enillwyr y Ddeuawd Agored - Dewi Siôn Evans a Barry Powell

Dyfarnwyd Iwan Morgan o Gwm Cynfal yn fardd y Gadair gan Gwyneth Glyn a Twm Morys, y beirniaid





Derbyniodd Neli Jones gydnabyddiaeth am ei gwasanaeth di-flino, wrth iddi gamu i'r neilltu fel ysgrifennydd cyffredinol Eisteddfod Bont.

Dymunwn ninnau fel Cymdeithas yn ogystal ddiolch yn ddiffuant i Neli, am ei theyrngarwch a'i chyfraniad eithriadol ar hyd y blynyddoedd. Mwynhewch yr amser hamdden haeddiannol!

# LLONGYFARCHIADAU!

**DIOLCH YN FAWR I'R HOLL FFOTOGRAFFWYR**

**Mwy o luniau a chanlyniadau ar www.steddfota.cymru**

**Edrychwn ymlaen at rannu blas o fyd yr eisteddfodau gyda chi yn y Steddfota nesaf. Pob hwyl gyda'r cystadlu!**


STEDDFOTA
Cylchlythyr Cymdeithas Eisteddfodau Cymru
Hybu eisteddfodau, cynnal cymunedau




*DRWY'R POST
*AR E-BOST
*O'R WEFAN
*MEWN SIOPAU CYMRAEG

**Am gopi, e-bostiwch: popeth@steddfota.cymru**

***Gofynnir yn garedig i chi ein hysbysu am unrhyw newid cyfeiriad/manylion cyswllt NEU os nad ydych yn dymuno derbyn copi erbyn hyn.***


# PECYNNAU ADDYSG




Mewn ymgais i hyrwyddo gwaith Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, ynghyd â chodi ymwybyddiaeth am eisteddfodau lleol, rydym wedi paratoi pecynnau addysg at ddefnydd disgyblion cynradd ac uwchradd.

Anfonwyd y pecyn at ysgolion ar draws Cymru gyfan, gyda'r nod o annog a hybu cydweithio rhwng ysgolion a'r eisteddfodau sy'n lleol iddynt.

Y gobaith hirdymor yw y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr eisteddfodau, ac y bydd ieuenctid yn ymddiddori yn y gwaith trefnu sydd gan bwyllgorau, yn ogystal â chystadlu a chefnogi wrth gwrs.

# COFIO OLWEN JONES



Gyda thristwch, y cydymdeimlwn â Mr Trefor Wyn Jones a'i deulu yn eu profedigaeth o golli priod, chwaer, chwaer yng nghyfraith a modryb annwyl, yn dilyn marwolaeth Olwen Jones, y gyfeilyddes ddawnus o Ynys Môn.

Yn gerddor o'r radd flaenaf, hi oedd cyfeilydd swyddogol Eisteddfod Môn ers blynyddoedd. Roedd hi'n adnabyddus hefyd fel cyfeilydd eisteddfodau pentrefi'r sir, Eisteddfodau'r Urdd ac eisteddfodau tu allan i'r sir - Eisteddfod Dyffryn Conwy, Eisteddfod Y Ffôr, Pwllheli, i enwi ond ychydig.

Bu'n gyfeilyddes yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar fwy nag un achlysur, ac yn gyfeilyddes mewn amryw o gyngherddau yng Ngogledd Cymru.

Athrawes oedd hi yn ei gwaith bob dydd, ac er ei bod wedi ymddeol o Ysgol y Parc, Caergybi, roedd hi'n dal i fynd i gynorthwyo ysgolion llai y sir, fel Llannerchymedd, am ddeng mlynedd. Fe'i galwyd yn Anti Olwen neu Mrs Jones piano, a phlant yr ysgolion wrth eu bodd yn ei gweld hi'n dod i'r ysgol, ac os y buasai yn gweld addewid mewn plentyn buasai'n mynd yn ei hôl i'w helpu.

Roedd bob amser yn barod ei chymwynas – os buasai gennych eisiau cael ymarfer ar rhyw gân, dim ond ffonio Olwen oedd angen, a'r ateb oedd, "Tyrd yma, awn drosti hefo'n gilydd." Bu hyn yn help mawr i amryw o gantorion o'r ynys a thu hwnt, yn blant, ieuenctid ac yn unawdwyr hŷn. Wrth gyrraedd ei chartref cawsant groeso twymgalon bob tro.

Hi oedd cyfeilydd swyddogol Cantorion Colin Jones hyd at 2019, gan deithio'r byd gyda'r côr, ac yn ogystal roedd yn cyfeilio i Gôr Adlais, Côr Bro Goronwy a Chôr Ieuenctid Môn.

Rydym wedi colli trysor amhrisiadwy o gymdeithas yr eisteddfodau yng Nghymru, ond fe drysorwn yr atgofion hyfryd am Olwen a'r wên a oedd yn goleuo pob neuadd.

Bydd y golled yn enfawr i'w theulu, a Caleb y gath a oedd mor agos at ei chalon, ac i'r llu o ffrindiau trwy Gymru.

Diolch am gael ei hadnabod.

*gan Dennis Davies, Llanrwst*

# ENWEBU ac ANRHYDEDDU

## Cyfle i ddiolch am flynyddoedd o wasanaeth

**Gydag Eisteddfod Genedlaethol 2025 yn agosáu, daeth yr amser i feddwl am enwebu'r unigolion hynny a wnaeth gyfraniad arbennig i'ch eisteddfod leol chi.**

**Tro eisteddfodau'r Gogledd fydd hi eleni, ac mae ysgrifenyddion eisteddfodau eisoes wedi derbyn ebost/llythyr a ffurflen enwebu.**

**Edrychwn ymlaen yn eiddgar at weld pwy fydd yn derbyn cydnabyddiaeth gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru yn 2025, a hynny mewn seremoni ar faes y Brifwyl yn Wrecsam.**

**DYDDIAD CAU DERBYN ENWEBIADAU: 30/06/25**

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU · Llywodraeth Cymru Welsh Government · EISTEDDFOD Wrecsam 2025

**EISTEDDFOD RHYS THOMAS JAMES LLANBEDR PONT STEFFAN**

# Llais Llwyfan LLANBED

**CYSTADLEUAETH GLASUROL I GANTORION DAN 30 OED**

**Nos Sul, 24 Awst 2025**

Gofynnir i'r cantorion baratoi rhaglen amrywiol, glasurol ei naws, hyd at 15 munud o hyd. Rhaid cynnwys un gân gan gyfansoddwr Cymreig a dylid ei chanu yn Gymraeg. Bydd angen i bob cystadleuydd gyflwyno eu rhaglen hefyd.

*Noder mai'r unawdau yn unig fydd yn cael eu hamseru, nid y cyflwyniadau.*

**GWOBRAU: 1af £2000 a Thlws 2il £1000 3ydd £500 4ydd £250**

**BEIRNIAID: Leah Marian Jones a Patrick Young**
**CYFEILYDD: Rhiannon Pritchard**

**RHAGBRAWF: Dydd Sul, 22 Mehefin 2025**

**Festri Brondeifi, Llanbedr Pont Steffan**

**Mewn amgylchiadau penodol cynigir opsiwn Zoom. Cysylltwch â Lois Williams (ysgrifennydd)*

Disgwylir i bob cystadleuydd berfformio DWY gân allan o'i raglen - gan gynnwys yr Unawd Gymraeg

*Bydd angen i'r cystadleuwyr gysylltu â'r cyfeilydd swyddogol os gwelwch yn dda: Rhiannon Pritchard rhiannonp65@hotmail.com 07947249057*

*I gofrestru: Cysylltwch â Lois Williams loisw33@yahoo.com 07717842556*

**DYDDIAD CAU: 9 Mehefin 2025**

# EISTEDDFODAU 2025

**CEFNOGWCH EICH 'STEDDFOD LEOL!**

**Dyma'r eisteddfodau sydd wedi'u cadarnhau hyd yma tan ddiwedd 2025. Diweddarir y rhestr ar www.steddfota.cymru wrth i ni dderbyn dyddiadau. Bydd y rhestrau testunau ar gael i'w lawrlwytho yn ogystal, unwaith y byddwn wedi'u derbyn gan eisteddfodau.**

**Gofynnwn yn garedig i bwyllgorau gysylltu cyn gynted â byddwch wedi sefydlu dyddiad eich eisteddfod.**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 26-31 Mai | Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr Parc Margam a'r fro | www.urdd.cymru | | |
| 7 Mehefin | Eisteddfod Deiniolen a'r Cylch | Nesta Elliot | | nesta.elliott59@gmail.com |
| 14 Mehefin | Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth | Rhian Thomas<br>Jean Jones | 01341 450295 | rhian23957@hotmail.co.uk<br>jeanjones1423@btinternet.com |
| 14 Mehefin | Eisteddfod Dyffryn Elwy | Elinor Davies | 01745 720235 | yrefail@gmail.com |
| 21 Mehefin | Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy Llanrwst | Gwyneth Metcalfe | | teulumet@yahoo.co.uk |
| 21 Mehefin | Eisteddfod Gadeiriol Castellnewydd Emlyn a'r Cylch | Bethan Jones | 07875 548781 | wbjonesmeb@btinternet.com |
| 21 Mehefin | Eisteddfod Gadeiriol Bontnewydd | Lowri Rhys Griffiths | 07789228567 | lowrirhys@aol.com |
| 28 Mehefin | Eisteddfod Pontypridd | Bethan Ford | | bethanf@hotmail.com |
| 28 Mehefin | Eisteddfod Bro Aled Llansannan | Sioned Hedd | 07789 262355 | sionedhedd@yahoo.com |
| 28 Meh-5 Gorff. | Gŵyl Fawr Aberteifi | Non Davies | 07870587791 | gwylfawr@hotmail.com |
| 5 Gorffennaf | Eisteddfod Y Fenni (dros 18 oed) | Rosemary Williams | 01873 811814 | davidwilliams177@btinternet.com |
| 5 Gorffennaf | Eisteddfod Bro Llandegfan | Helen Davies | 01248 714705 | helencaeffynnon@yahoo.co.uk |
| 9-13 Gorff. | Eisteddfod Ryngwladol Llangollen | www.international-eisteddfod.co.uk | | |
| 12 Gorffennaf | Eisteddfod yr Hen Gapel Llanbrynmair | Ffion Morgan<br>Llinos Jones | 07940 467799<br>07890751301 | eisteddfodllanbrynmair@gmail.com |
| 26 Gorffennaf | Eisteddfod Trallong | Mary Robinson | 01874 624350 | maryrobinsonbrecon@gmail.com |
| 2-9 Awst | Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam | www.eisteddfod.cymru | | |
| 22-25 Awst | Eisteddfod Rhys Thomas James Llanbedr Pont Steffan | Dorian Jones | 07814 440581 | doriancop@icloud.com |
| 12-13 Medi | Eisteddfod Gadeiriol Tregaron | Eirwen James | | eirwen.tymawr@live.co.uk |
| | Eisteddfod Gadeiriol Cwmystwyth | *Dim eisteddfod yn 2025. Dyddiad 2026 ar y wefan.* | | |
| 20 Medi | Eisteddfod Gadeiriol y Tymbl | Anwen Evans | 01269 833568 | anwenevans@live.co.uk |
| 27 Medi | Eisteddfod Gadeiriol Llanwrtyd | Susan Price | 01591 610303 | elinmabbutt@live.co.uk |
| 10 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Llanarth | Catrin Bellamy Jones | 01545 580279 | catrinbj1@gmail.com |
| 11 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn | Bethan Jones | | bethwyn73@gmail.com |
| 11 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Bancffosfelen | Davinia Davies | 07879 692347 | daviniaharries@hotmail.com |
| 18 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Felinfach | Meinir Lewis | 01570 470050 | euros@mailsaq.net |
| 25 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint | Tina Morris | 07816 602981 | tina.morris@lasrecycling.com |
| 22 Tachwedd | Eisteddfod Gadeiriol Aelhaearn | Mary C Jones | 01286 660768 | mary.jones17@btinternet.com |


**SWYDDOG DATBLYGU**
***Angharad Brinn Morgan***
07811057046
angharad@steddfota.cymru




**YMHOLIADAU CYFFREDINOL:**
popeth@steddfota.cymru




**SWYDDOG CYFATHREBU**
***Lois Williams***
01570 423700/07717842556
lois@steddfota.cymru